Llywodraeth Cymru

# Cyllid mewn diwylliant a chwaraeon

## Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

21/02/2025

## Crynodeb


Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi ystyried cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y sectorau diwylliant a chwaraeon dros y degawd diwethaf ac wedi gwneud sawl argymhelliad a chasgliad i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r 13 argymhelliad a'r tri chasgliad wedi'i nodi isod.

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ... 3
2. **Argymhelliad 1** ... 4
3. **Argymhelliad 2** ... 5
4. **Argymhelliad 3** ... 6
5. **Argymhelliad 4** ... 7
6. **Argymhelliad 5** ... 8
7. **Argymhelliad 6** ... 9
8. **Argymhelliad 7** ... 11
9. **Argymhelliad 8** ... 12
10. **Argymhelliad 9** ... 13
11. **Argymhelliad 10** ... 14
12. **Argymhelliad 11** ... 15
13. **Argymhelliad 12** ... 16
14. **Argymhelliad 13** ... 17
15. **Casgliad 1** ... 18
16. **Casgliad 2** ... 19
17. **Casgliad 3** ... 21

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ei adroddiad ar gyfer ei ymchwiliad i Effaith Gostyngiadau Cyllid ar Ddiwylliant a Chwaraeon ar 9 Ionawr 2025. Diolchwn i'r Pwyllgor am yr adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor ac yn ymateb i'w argymhellion a'i gasgliadau isod. Ar gyfer pob argymhelliad, rydym wedi darparu ymateb ysgrifenedig ac wedi penderfynu naill ai 'derbyn', 'derbyn mewn egwyddor' neu 'wrthod' pob argymhelliad. Ar gyfer pob casgliad, rydym wedi darparu ymateb ysgrifenedig.

# 2. Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon nes ei fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Mae'r sectorau diwylliant, y celfyddydau a chwaraeon yn gwneud cyfraniad hanfodol at ein cymdeithas, gan gyfoethogi ein cymunedau ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen yn dilyn setliadau cyllid heriol gan Lywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cymariaethau'r Pwyllgor rhwng Cymru a gwledydd eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r dadansoddiad o ddyraniadau cyllid yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill Ewrop yn gymhariaeth uniongyrchol gyfatebol. Mae'r adroddiad ei hun yn cynnwys cafeat bod gwledydd yn adrodd ffigurau mewn gwahanol ffyrdd.

Ar 20 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26 a oedd yn cynnwys £4.6 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer y celfyddydau, diwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a chwaraeon yng Nghymru, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad refeniw ychwanegol ar gyfer 2025-26 i £9.6 miliwn. Fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, roeddem eisoes wedi darparu £5m o refeniw ychwanegol ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon, yn ogystal â chyfalaf ychwanegol o £18.4m i'r sector. Mae ein buddsoddiad refeniw ychwanegol yn dychwelyd ein rhanddeiliaid i'w sefyllfa cyllideb refeniw yn 2023-24, cyn y toriadau a wnaed fel rhan o gyllideb 2024-25.

Er bod gennym uchelgais i ehangu cyllidebau ar gyfer y sectorau hyn yn y blynyddoedd i ddod, bydd hyn yn dibynnu ar lawer o ffactorau eraill. Mae rhai o'r ffactorau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth, gan gynnwys Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU sydd i'w gwblhau yn ddiweddarach eleni.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant

# 3. Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd y boblogaeth. Byddai hyn yn helpu i gydnabod a chyllido diwylliant a chwaraeon yn briodol am y gwerth sydd ganddynt y tu hwnt i'w gwerth cynhenid.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Bydd ymwreiddio dull ataliol ymhellach yn ystyriaeth bwysig yn Adolygiad o Wariant parhaus Cymru, a fydd yn edrych ar y cynllunio cyllidol tymor hwy ar gyfer Llywodraeth Cymru ac a fydd yn bwydo i gyllidebau'r dyfodol ar yr adeg briodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

# 4. Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y ffioedd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyllido'r cynllun fel rhan o'i ddyraniad cyllideb craidd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau hamdden. Mae pob awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ar sut i ddefnyddio'r cyllid grant yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau lleol. Cynyddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y cynllun 3% yn 2024-25 ac maent yn ystyried opsiynau ar gyfer 2025-26. Er bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni'r cynllun fel rhan o'i ddyraniad cyllideb craidd, mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o'r costau cynyddol y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn trafod yn rheolaidd â darparwyr.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

# 5. Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth drawsadrannol gydweithredol i gyllido diwylliant a chwaraeon, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cyllid yn cael eu cydgysylltu â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, yn enwedig iechyd ac addysg. Dylai'r strategaeth hon gydnabod chwaraeon a diwylliant fel cyfryngau allweddol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Ymateb: Gwrthod**

Gwnaethom ymgynghori ar ein Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yn ystod haf 2024. Ar ôl eu cyhoeddi, bydd y Blaenoriaethau'n cynnig y fframwaith strategol y bydd penderfyniadau ar gyfer cyllido'r portffolio diwylliant yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn ei erbyn.

Mae strategaeth Chwaraeon Cymru eisoes yn nodi sut y mae'n ymgysylltu ar draws llywodraeth ehangach a sut y mae'n cydweithio â sefydliadau ac yn gwerthfawrogi'r rhwydwaith cryf a bywiog o bobl a phartneriaid ledled Cymru sydd eisoes yn creu dulliau arloesol o ddarparu chwaraeon.

Mae diwylliant a chwaraeon eisoes wedi'u prif ffrydio i sawl un o feysydd polisi Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod sectorau a sefydliadau o fewn y portffolio diwylliant a chwaraeon yn parhau i dderbyn cyllid gan rannau eraill o Lywodraeth Cymru ac rydym wedi darparu enghreifftiau cadarnhaol i'r Pwyllgor lle mae hyn wedi digwydd o'r blaen, gan gynnwys o'r portffolios iechyd ac addysg. Wrth gwrs, byddwn yn ymdrechu i wneud cynnydd pellach ar gydweithredu trawsadrannol yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant

# 6. Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall gael gwared ar rwystrau megis gofynion achos busnes, ac yn lle hynny darparu mwy o gyllid fel cyfraniadau ychwanegol at eu cymorth grant

**Ymateb: Gwrthod**

Mae gan y cymorth grant a ddarperir i sefydliadau hyd braich diwylliant a chwaraeon y diben penodol o gefnogi eu costau gweithredol, neu mae'n gyllid y maent yn ei drosglwyddo ar ffurf grantiau i sefydliadau eraill. Pan fydd y sefydliadau hynny'n gofyn am gyllid ychwanegol, ar wahân, ar gyfer prosiectau penodol, er enghraifft, i gefnogi gwelliannau i'r seilwaith, mae'r dull y cytunir arno yn gofyn am i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu drwy ddatblygu achosion busnes. Mae'r gofyniad i ddatblygu achos busnes methodoleg Model Pum Achos yn ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus, yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Dyluniwyd y canllawiau achosion busnes i'w defnyddio'n gymesur, yn unol â lefel y gwariant a'r risg sy'n gysylltiedig â menter benodol a chydag ystyriaeth i'r llwybr i'r farchnad h.y. y math o gaffael ydyw. Defnyddir y broses datblygu achosion busnes i ddiffinio'r prosiect yn glir ac asesu ei risgiau, gwerth am arian, addasrwydd strategol a'r gallu i gyflawni, gan ganiatáu i swyddogion ddarparu cyngor cadarn i Weinidogion am benderfyniadau buddsoddi sylweddol. Y tu hwnt i gynlluniau grant cystadleuol penodol, defnyddir y dull hwn fel safon ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau seilwaith.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant

# 7. Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o gyflwr cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys sut i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion. Dylai'r adolygiad hwn ystyried y rhwystrau a allai atal rhagor o ddefnydd o gyfleusterau ysgol y tu allan i oriau addysgu a sut i oresgyn y rhwystrau hynny.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Roedd pwysigrwydd mannau priodol ar gyfer cymryd rhan mewn diwylliant a’i fwynhau yn thema glir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant. Bydd gwella ein dealltwriaeth o'r seilwaith ffisegol presennol ar gyfer diwylliant yn faes ffocws wrth i ni ddechrau gweithredu'r Blaenoriaethau newydd - bydd hyn, yn ei dro, yn gwella ein cynlluniau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf strategol hirdymor ledled Cymru.

Mae llawer o adolygiadau eisoes wedi'u cynnal i gefnogi ein gwaith, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

<u>Chwaraeon</u>

Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, *Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol*, mewn cydweithrediad â CLOW, Prif Swyddogion Hamdden Cymru, rydym wedi cynnal arolwg o'r ystad hamdden yn awdurdodau lleol Cymru ac rydym wrthi'n asesu'r data hwnnw ar hyn o bryd. I ategu'r gwaith hwn, rydym hefyd yn cynnal adolygiad o gyfleusterau chwaraeon gyda chyrff llywodraethu cenedlaethol i asesu'r blaenoriaethau ar gyfer cyfleusterau chwaraeon arbenigol allweddol ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd data a gesglir gan Chwaraeon Cymru ar Gaeau Glaswellt Artiffisial yn cael ei gyhoeddi cyn hir ar Fap Data Cymru. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn casglu rhywfaint o ddata ar y ddarpariaeth a'r defnydd o gyfleusterau chwaraeon ysgol drwy'r Arolwg Chwaraeon Ysgol.

<u>Amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau</u>

Mae ein rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid yn darparu cyllid ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol. Yn 2022, comisiynwyd gwerthusiad o'r rhaglen gan gynnwys rhai myfyrdodau ar anghenion cyfalaf ein sectorau lleol yn y dyfodol. Gan adeiladu ar hyn, aethom ati'n ddiweddar i benodi contractwyr i ddarparu dadansoddiadau annibynnol o anghenion buddsoddi cyfalaf y sector amgueddfeydd lleol. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth annibynnol o natur a maint y materion seilwaith sy'n wynebu'r sector lleol.

Yn 2023-24, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o brosesau rheoli casgliadau awdurdodau lleol ac amgueddfeydd annibynnol yng Nghymru a'n sefydliadau diwylliannol hyd braich cenedlaethol. Dangosodd hyn, ar gyfer amgueddfeydd sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau hanesyddol, y gall fod yn eithriadol o anodd a chostus cynnal y safonau amgylcheddol sy'n ofynnol i ofalu am gasgliadau, a gallai rhai ohonynt fod yn wynebu risg.

Mewn ymateb, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun grant i wella cyfleusterau storio. Gwnaed wyth dyfarniad yn ddiweddar.

Rydym hefyd yn monitro mynediad drwy ein gwahanol ddulliau o gasglu data, gan gynnwys arolygon gwasanaethau sector megis yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd a Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Theatrau

Comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru adolygiad o *Cyllid Cyfalaf 2010-2023* at ddibenion mewnol. Nododd yr ymchwil, dan arweiniad *Think Philanthropy*, gyfres o argymhellion y mae CCC bellach yn eu hystyried yn ei ddull o ddosbarthu cyllid cyfalaf i gefnogi cyfleusterau celfyddydol yng Nghymru.

Mae rhaglen *Buddsoddi mewn Theatrau* Llywodraeth Cymru drwy CCC wedi darparu buddsoddiad hanfodol i 26 o theatrau a lleoliadau ledled Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd.

Cyfleusterau ysgol

Drwy ein Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, y don 9 mlynedd newydd o fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith addysg ledled Cymru a'n grant cyfalaf Ysgolion Bro, byddwn yn parhau i gefnogi buddsoddiad ac yn ymwreiddio pwysigrwydd gwneud ein hysgolion yn ysgolion bro fel y gall cyfleusterau, gan gynnwys eu cyfleusterau chwaraeon, fod yn hygyrch i bawb. Byddwn yn monitro buddsoddiad ac yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'u cyfleusterau ac yn rhannu systemau rheoli a ddefnyddir i gefnogi hyn drwy ein sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant

# 8. Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o sut y mae'r cyllid ychwanegol o £5 miliwn yn ystod y flwyddyn wedi cael ei wario.

**Ymateb: Derbyn**

Dyrannwyd y £5m o gyllid refeniw a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024 fel a ganlyn:

- £1m i Chwaraeon Cymru, a benderfynodd drosglwyddo'r cyllid ychwanegol i Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol chwaraeon a'u partneriaid, gyda'r nod allweddol o liniaru toriadau gwariant blaenorol fel rhan o gyllideb 2024-25.
- £1.5m i Gyngor Celfyddydau Cymru i'w ddefnyddio i ddarparu cymorth i sefydliadau celfyddydol, gan ganolbwyntio ar wydnwch sefydliadol.
- £745k i Cadw i gynnal cynaliadwyedd ariannol a chyflawni rhwymedigaethau statudol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, yn ogystal â'i helpu i fuddsoddi mewn gweithgareddau masnachol i gynhyrchu incwm.
- £940k i Amgueddfa Cymru i ddatblygu ei phrofiad i ymwelwyr, ar gyfer datblygiad masnachol ac i wella prosesau llywodraethu.
- £725k i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i gefnogi ei chronfa bensiwn ac ar gyfer seilwaith digidol.
- £90k i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i gyflogi graddedigion ar gontractau tymor penodol i gefnogi ei wasanaeth llyfrgell ac ymholiadau, er mwyn cynyddu'r mynediad hunanwasanaeth at gofnodion sydd ar gael i ddefnyddwyr Coflein a diweddaru a gwella'r cofnodion amgylchedd hanesyddol sydd ar gael ar-lein.

Yn ogystal â’r £5m a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, dyrannodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn pellach o gyllid refeniw ychwanegol yn ystod y flwyddyn ym mis Rhagfyr 2024 i gynyddu’r cymorth ar gyfer gwydnwch sefydliadol yn sector y celfyddydau, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Fel uchod. Dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant

# 9. Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyfeiriad strategol i alluogi'r sectorau diwylliant a chwaraeon i ffynnu a chyflawni amcanion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. I'r perwyl hwn, dylai Blaenoriaethau Diwylliant arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiadau clir a mesuradwy tuag at y nod hwn.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym eisoes yn darparu cyfeiriad strategol clir iawn i'r cyrff diwylliant a chwaraeon cenedlaethol drwy ein llythyrau cylch gwaith ar gyfer y tymor Llywodraeth a thrwy ddatblygu cynlluniau gweithredol blynyddol.

Datblygwyd y Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn cyflawni nifer o amcanion a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae ein huchelgeisiau sero net, ein strategaeth ddigidol, ein ffocws ar bobl ifanc, ein gwaith ar gydraddoldeb a llawer o feysydd eraill yn cael eu hadlewyrchu yn y blaenoriaethau drafft ac uchelgeisiau ategol. Diben y blaenoriaethau drafft a'r uchelgeisiau yw darparu cyfeiriad strategol lefel uchel – nid oes bwriad iddynt ragnodi'n fanwl ar faterion gweithredu.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant

# 10. Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth nofio mewn ysgolion i sicrhau bod plant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn gallu nofio. Dylai'r strategaeth hon gydnabod pwysigrwydd darparu digon o gyfleusterau a thrafnidiaeth

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno gyda bwriad yr argymhelliad i sicrhau bod plant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn gallu nofio. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol y byddai'r argymhelliad yn ei roi ar ysgolion o dan yr amgylchiadau ariannol anodd ar hyn o bryd.

Mae'r canllawiau statudol o fewn y Cwricwlwm i Gymru, y mae'n rhaid i bob ysgol eu hystyried, yn cynnwys dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn ystod o weithgarwch corfforol, gan gynnwys mewn dŵr. Mae hyn yn darparu ar gyfer nofio, sy'n debygol o fod yn weithgarwch priodol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Ein nod yw helpu i wneud y disgwyliad hwn yn glir i ysgolion a chodi ymwybyddiaeth o broffil nofio a diogelwch dŵr o fewn y cwricwlwm.

Rydym wedi ymrwymo i annog ysgolion i gefnogi dysgwyr i nofio a gwneud defnydd o byllau nofio wrth wneud hyn. Mae swyddogion yn gweithio gyda Nofio Cymru i archwilio ffyrdd pellach o gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u cynnig nofio. Gall cost nofio, gan gynnwys cludiant, roi pwysau sylweddol ar ysgolion. Yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw, mae'n bwysig bod ysgolion yn gallu ymrwymo cyllid i weithgareddau sy'n cefnogi anghenion eu dysgwyr ac, ar adegau, efallai na fydd gan ysgolion unrhyw ddewis ond trosglwyddo rhywfaint o'r gost hon.

Rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol sydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol ac yn gwerthfawrogi ymdrechion y gweithlu ysgolion wrth iddynt barhau i weithredu o dan amgylchiadau mor heriol.

Gwneir penderfyniadau ar lefel y cyllid sydd ar gael i ysgolion ac i wasanaethau eraill gan bob awdurdod fel rhan o'u gwaith cyffredinol o osod y gyllideb a lefelau'r dreth gyngor. Mae hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i farnu anghenion ac amgylchiadau lleol ac i gyllido ysgolion yn unol â hynny.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

# 11. Argymhelliad 10

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb i bryderon y sector cyhoeddi ac ystyried cynyddu'r cyllid y mae'n ei roi i'r sector.

**Ymateb: Derbyn**

Darparodd Cyllideb Derfynol 2025-26 Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 20 Chwefror 2025, ddyraniad pellach o £272,000 i Gyngor Llyfrau Cymru, sy'n adeiladu ar y £120,000 a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft ac sy'n cynyddu eu cyllideb yn 2025-26 £392,000 o gymharu â grant 2024-25.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant

# 12. Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu llythyrau cylch gwaith y sefydliadau a ariennir ganddi yn sgil y gostyngiadau yn eu cyllid mewn termau real. Dylai'r gofynion yn y llythyrau cylch gwaith fod yn glir ac yn bendant, ac yn gymesur â lefel y cyllid.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn wrth i ni baratoi Llythyrau Cylch Gwaith y Tymor Llywodraeth o 2026-2027 ymlaen.

Yn sgil y gostyngiadau mewn cyllid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym eisoes wedi adolygu'r disgwyliadau a nodir yn y llythyrau cylch gwaith presennol. Yn dilyn ymgysylltu â'r cyrff hyd braich, daethom i'r casgliad bod eu llythyrau cylch gwaith yn cynnwys digon o hyblygrwydd i'r sefydliadau barhau i gyflawni o fewn eu cynlluniau gweithredol priodol. Mae'r llythyrau cylch gwaith yn parhau i nodi'n briodol ein disgwyliadau eang ar gyfer y tymor llywodraeth hwn ac yn darparu cyd-destun strategol. Fodd bynnag, rydym yn llwyr werthfawrogi bod angen gosod amcanion mwy realistig i adlewyrchu eu cyd-destunau gwaith presennol, a bydd hyn yn cael ei fonitro'n barhaus. Rydym yn gweithio gyda phob sefydliad wrth iddynt baratoi cynlluniau gweithredol ar gyfer 2025-26, gan ddangos sut y byddant yn cyflawni yn erbyn amcanion eu llythyrau cylch gwaith priodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

# 13. Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi'r model mwyaf addas ar gyfer ariannu cwmnïau celfyddydau cenedlaethol: boed gan Gyngor Celfyddydau Cymru (y model presennol), Llywodraeth Cymru, neu gyfuniad o'r ddau.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Drwy gyllid aml-flwyddyn a chyllid prosiect, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi sefydliadau o wahanol feintiau, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o sefydliadau sy'n cyfrannu at dirwedd y celfyddydau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gredu, gan weithio o dan y fframwaith strategol a osodwn, mai Cyngor Celfyddydau Cymru sydd yn y sefyllfa orau i ddosbarthu cyllid celfyddydol Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

Yn dilyn ei broses Adolygiad Buddsoddi yn 2023, cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru gymorth cyllid aml-flwyddyn ar gyfer 81 o sefydliadau o bob maint rhwng 2024-25. Aseswyd ceisiadau yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd, a oedd yn amodol ar broses ymgynghori. Roedd y canllawiau'n canolbwyntio ar chwe egwyddor: *Creadigrwydd, Ehangu Ymgysylltiad, Y Gymraeg, Cyfiawnder Hinsawdd, Meithrin Talent, a Thrawsnewid*. Defnyddiodd Cyngor Celfyddydau Cymru bum ffactor cydbwyso hefyd i gymryd safbwynt ehangach: *ystod eang o gelfyddydau a chyfleoedd creadigol; gwasanaethu cymunedau ledled Cymru; lleisiau sydd wedi'u tanariannu ac sydd ddim yn cael eu clywed; gwerth cyhoeddus; a maint a ffurf sefydliadau sy'n ymgeisio.*

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dilyn proses gadarn drwy ei Adolygiad Buddsoddi ac yn ystyried mai'r broses hon yw'r model cyllido mwyaf addas.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses Adolygiad Buddsoddi ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

# 14. Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â phrosiect yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, gan gynnwys sut y bydd yn cael ei ariannu.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn cynnig diwygiedig gan bartneriaid y prosiect, sy'n cynnwys model cyllido arfaethedig, ac rydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r model yn defnyddio cyllid o sawl ffynhonnell a'i nod yw lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid gan Lywodraeth Cymru yn unig.

Mae'r partneriaid wedi cytuno, ar ôl cwblhau'r buddsoddiad cyfalaf yn y naw oriel sy'n cymryd rhan yn y model gwasgaredig ar gyfer Celf, y bydd arweinydd gweinyddol y bartneriaeth yn trosglwyddo o Gyngor Celfyddydau Cymru i Amgueddfa Cymru.

Mae trefniadau llywodraethu'r dyfodol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, gyda chynigion cychwynnol wedi cael eu trafod yn y Bwrdd Prosiect. Mae gweithdy gydag aelodau'r Bwrdd Prosiect yn cael ei gynllunio i wneud cynnydd pellach ar y cynigion.

**Goblygiadau ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol. Bydd cyllid yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn cael ei reoli o fewn cyllidebau presennol.

# 15. Casgliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol**: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer hamdden cyhoeddus, sy'n cysylltu'n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Fel rhan o'r broses, dylid adolygu rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth wella cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau hamdden cyhoeddus.

**Ymateb:**

Rydym eisoes yn gwneud cysylltiadau rhwng iechyd a hamdden, drwy weithgareddau megis y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a'r Cynllun Hamdden Egnïol 60+, sydd yn ei dro yn rhan o'n Strategaeth a'n Cynlluniau Cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad ar waith partneriaeth ym mis Ionawr 2024. Cadarnhaodd yr argymhellion rôl arweinwyr lleol o ran symleiddio a chryfhau gwaith rhwng partneriaethau strategol, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae swyddogion yn parhau i ddatblygu'r **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol**, sydd â'r nod o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r iaith a ddefnyddir a'r ymagwedd at bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru; cefnogi ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol a datblygu sgiliau; pennu'r canlyniadau disgwyliedig gan ddefnyddwyr, sefydliadau, comisiynwyr ac atgyfeirwyr; a sicrhau darpariaeth o ansawdd gan asedau cymunedol, gan gynnwys y rhai ym maes hamdden gyhoeddus. Hefyd, bydd yn monitro ac yn gwerthuso datblygiad presgripsiynu cymdeithasol wrth iddo barhau i dyfu ledled Cymru. Ar ben hynny, drwy ddatblygu'r Fframwaith Cenedlaethol, mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi nodi hyrwyddwr presgripsiynu cymdeithasol i arwain datblygiadau yn ei ranbarth, ac adrodd yn unol â hynny ar gynnydd presgripsiynu cymdeithasol.

# 16. Casgliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar gynnydd wrth weithredu argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig.

**Argymhelliad 3 yn yr adroddiad cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwaith o agor cyfleusterau ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn yr ardaloedd hynny. Dylid gwneud hyn fel a ganlyn:

i. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canfyddiadau'r rhaglenni peilot gwahanol sy'n cael eu cynnal ynghylch agor ysgolion i'r gymuned ehangach eu defnyddio, ac adrodd ar ei chanfyddiadau mewn dogfen a fydd yn cael ei chyhoeddi ddim hwyrach na mis Gorffennaf 2023.
ii. Gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnal archwiliad Cymru gyfan o gyfleusterau chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion i nodi beth sy'n bodoli a beth yw cyflwr y cyfleusterau hyn. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor hygyrch yw'r cyfleusterau hyn o ran dull teithio, gan gynnwys sylw arbennig i leoliad ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.
iii. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ardaloedd difreintiedig sydd angen cymorth ar fyrder i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol a darparu'r cyllid priodol i alluogi hynny i ddigwydd.

Ymateb:

Rydym yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol, drwy Grŵp Prif Swyddogion Hamdden Cymru, i'n helpu i ddeall yn well y ddarpariaeth o gyfleusterau hamdden ledled Cymru a deall lle y gallai fod bylchau. Ategwyd y gwaith hwn gan ddata ar ddarparu a defnyddio cyfleusterau chwaraeon ysgolion, a gasglwyd gan Chwaraeon Cymru drwy'r Arolwg Chwaraeon Ysgol.

Mae sicrhau bod ein cyfleusterau addysgol yn cefnogi iechyd a lles ein plant ac iechyd a lles y gymuned leol wedi bod yn nod allweddol erioed sy'n sail i fuddsoddiad drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi eraill yn cael eu hannog i feddwl yn arloesol am ddarparu cyfleusterau addysg gorfforol yn eu cynigion buddsoddi.

Mae ein llythyr cylch gwaith y Tymor Llywodraeth at Chwaraeon Cymru yn nodi ein disgwyliad y bydd Chwaraeon Cymru yn cyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen

Lywodraethu i hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon i bawb, cefnogi athletwyr ifanc a thalentog, a chefnogi clybiau chwaraeon lleol a sefydliadau cymunedol.

Mae'r cyllid rydym wedi'i ddarparu i Chwaraeon Cymru, yn gyllid cyfalaf a refeniw, wedi'i dargedu at amddifadedd ac anghydraddoldebau ehangach. Profwyd bod hyn yn hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon, ac mae'n amlwg ei fod wedi cyflawni yn erbyn yr agenda hon.

Mae Cronfa Cymru Actif wedi cael effaith gadarnhaol. Mae'n cefnogi chwaraeon ar lawr gwlad yn uniongyrchol, gan gynnig grantiau o £300 i £50,000 i glybiau chwaraeon a sefydliadau cymunedol i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac arloesi mewn chwaraeon. Mae hyn yn helpu clybiau a sefydliadau i gael mynediad at gymorth ar gyfer offer, addysg hyfforddwyr, hyfforddiant, cynnal a chadw caeau chwarae ac ystod eang o ymyriadau eraill sy'n helpu chwaraeon yng Nghymru i gael eu cynnal. Yn ogystal ag uwchsgilio gwirfoddolwyr a helpu gyda chostau offer, mae'r gronfa hefyd yn cefnogi allgymorth sydd wedi'i anelu at bobl heb gynrychiolaeth ddigonol mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar hyn o bryd.

# 17. Casgliad 3

Dylai'r Gweinidog Sgiliau, Diwylliant a Phartneriaeth Gymdeithasol gynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ynghylch sut y gall y sector cyhoeddi helpu i wella llythrennedd pobl Cymru a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr.

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad pwysig mae'r sector cyhoeddi yn ei wneud at ystod o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cymorth ar gyfer llythrennedd ac uchelgeisiau Cymraeg 2050, a dyfernir cyllid i'r Cyngor Llyfrau gan nifer o adrannau Llywodraeth Cymru i gyflawni cynlluniau sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau ehangach hyn

Drwy ein cytundeb cyllido gydag Adnodd, byddwn yn cyllido BookTrust Cymru ar gyfer amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys Dechrau Da a'r Clwb Blwch Llythyrau a'r Cyngor Llyfrau ar gyfer rhaglenni penodol i lythrennedd, gan gynnwys Stori Sydyn. Yn ogystal, mae ein rhaglen cymorth grant newydd sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru yn blaenoriaethu cynigion i'w cyflwyno o fis Ebrill ymlaen a fydd yn hyrwyddo cariad at ddarllen gan helpu i ddatblygu sgiliau darllen, llythrennedd ac iaith da.